

Adroddiad ar Ymgynghoriad

Canllawiau Cynllunio Atodol (amrywiol, gweler Tabl isod)

i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

a Fabwysiadwyd ym mis Medi 2010

Cymeradwywyd y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft canlynol fel testun ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 8 Rhagfyr 2010.

Colli Gwestai a Thai Gwestai
Rhwymedigaethau Cynllunio
Asesu Cymeriad y Dirwedd
Dylunio Cynaliadwy
Estyniadau i Adeiladau (Gwelliannau sydd eu hangen i effeithlonrwydd yn yr adeilad gwreiddiol)
Parthau Diogelu Mwynau
Ansefydlogrwydd Tir o Ganlyniad i Hen Weithfeydd Glo
Parcio
Yr Amgylchedd Hanesyddol (Archeoleg)

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 2 Chwefror 2011 a daeth i ben ar 27 Ebrill 2011 am 5yp.

Anfonwyd tua 1,800 o lythyron at ymgynghoreion ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol, ac ymgynghoriad trwy e-bost at y rheiny a ddywedodd fod yn well ganddynt y dull hwn. Dywedwyd wrth yr ymgynghoreion y gellid cael Cryno Ddisg ag arni ddogfennau'r ymgynghoriad, yn rhad ac am ddim, ac roedden nhw ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan yr Awdurdod. Roedd copïau papur o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gael ar gais, am y ffi leiaf posib.

Anfonwyd llythyron a chryno ddisgiau ag arnynt ddogfennau'r ymgynghoriad at lyfrgelloedd yn Sir Benfro ac yn San Clêr ac Aberteifi, fel a ganlyn

Aberteifi	Penfro	Tyddewi	Trefdraeth
Crymych	Hwlfordd	Saundersfoot	Neyland
Abergwaun	Aberdaugleddau	Dinbych-y-pysgod	
Arberth	Doc Penfro	San Clêr	

Rhoddwyd y rhain hefyd i ganolfannau'r Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod. Roedd copïau papur o'r dogfennau ar gael i'w darllen hefyd yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion, Doc Penfro.

Rhoddwyd Cryno Ddisgiau ag arnynt y dogfennau i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddwyd cyfle hefyd i Gynghorau ofyn am gopi papur rhad ac am ddim o unrhyw ganllawiau os oeddent yn teimlo eu bod o ddiddordeb penodol iddynt. Darparwyd amlen rhadbost i annog hyn. Yna, rhoddwyd unrhyw ddogfennau i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned heb unrhyw gost i'r Cynghorau.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph a ymddangosodd yn rhifyn 2 Chwefror. Ymddangosodd datganiad i'r wasg yn y Western Telegraph yn rhifyn 9 Mawrth 2011, a chafodd sylw ar newyddion Radio Sir Benfro ar 12 Mawrth 2011.

Roedd modd cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i'r Awdurdod erbyn 5yp ar 27 Ebrill 2011.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maent ar gael yn gyhoeddus – gweler y ddolen isod at y we. Cafwyd cyfanswm o 43 o sylwadau unigol gan gyfanswm o 11 unigolyn a mudiad.

Cyflwynwyd ymatebion swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2011. Gellir darllen adroddiad ar ymatebion swyddogion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau cynllunio atodol trwy ddilyn y ddolennau isod at y we:

http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/22_06_11/SPG.pdf

Second weblink here

Cytunodd yr Awdurdod i ddiwygio'r canllawiau yn unol ag argymhellion y Swyddogion, yn amodol ar y canlynol:

- **Yn Gyffredinol:** Pwerau dirprwyedig i ddelio gyda chamgymeriadau teipio a gramadeg.
- **Colli Gwestai:** Cael gwared ar y cyfeiriad at yr angen i farchnata'r eiddo am 2 flynedd. Cyngori y dylid cyflwyno cyfiawnhad digonol dros newid defnydd adeg cyflwyno'r cais. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth adeg cyflwyno'r cais nad oes marchnad i ganiatáu i'r perchennog werthu'r busnes fel busnes gweithredol.
- **Asesu Cymeriad y Dirwedd:** Cynnwys cyfeiriad yn Ardal Nodwedd Tir Rhif. 6 at gyfres o adeiladau rhestredig Brownslade, Flimston a Pricaston

Mae'r Canllawiau wedi eu gosod ar y wefan yn

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>. Dangosir yr holl ddiwygiadau y cytunwyd iddynt yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac eithrio un diwygiad y cytunwyd iddo i Ganllawiau Asesu Cymeriad y Dirwedd. Mae angen diwygio'r ddogfen ymhellach er mwyn ystyried newidiadau i werthusiad yr ardaloedd agwedd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn aros am yr wybodaeth (Gorffennaf 11) er mwyn gwneud y diwygiad hwn.